Lefel 2

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

MEHEFIN 2019

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	4
Cynnwys y pwnc	4
Cynllun asesu	5
Gofynion asesu	6
Deilliannau	6
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	6
Gofynion rhesymeg	7
Gofynion gweithredol	7
Atodiad A	9
Atodiad B	15

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Mawrth 2017)*[1]: *Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] https://cymwysteraucymru.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori. Datblygwyd y rhain drwy waith ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb a'r deunyddiau asesu ar gyfer cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

Dylai'r cymhwyster hwn fod wedi'i gynllunio er mwyn helpu unigolion i symud ymlaen i gyflogaeth a/neu astudiaethau pellach. Dylai'r cymhwyster hwn atgyfnerthu'r wybodaeth a feithrinwyd drwy gyflawni cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. Gall y rhai sy'n chwilio am waith, neu sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant dan 8 oed mewn lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig, a'r rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant rhwng 0 a 19 oed drwy wasanaethau plant y GIG, astudio'r cymhwyster hwn. Mae elfen ymarfer y cymhwyster hwn yr un peth â'r hyn sydd ar gael yng nghymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Mae'r cynnwys yn adlewyrchu amrywiaeth o rolau ac oedrannau gwahanol. Bydd angen i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant rhwng 8 a 12 oed mewn lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig hefyd gwblhau cymhwyster gwaith chwarae ychwanegol a nodwyd gan Skills Active.

Pan fo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Daw'r meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon i rym o fis Ebrill 2019 a chânt eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant[2] i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres am gyfnod o bum mlynedd o naill ai 1 Medi 2019 neu 1 Medi 2020 er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn ohonynt sydd ar gael. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob

[2] http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf

cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortiwm sy'n cynnwys City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres ar y cyd.

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3] y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Fair Access by Design*[4] (cyhoeddiad Saesneg yn unig). Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y *contract consesiwn* a ddyfarnwyd yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Rhaid i gynnwys pwnc y cymhwyster hwn ymwneud â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol priodol a'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd drechaf.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnig tystysgrif am gymhwyster o 400 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) i ddysgwyr a bydd angen ei diffinio o ran Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) a chredydau.

   Rhaid i fanyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnwys yr holl gynnwys pwnc a gofynion asesu ar gyfer Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

2. Rhaid i ddysgwyr hefyd gwblhau'r cynnwys gwybodaeth orfodol a nodwyd yn yr Atodiad sy'n cyfrif am gyfanswm o 50 ODA. Bydd y cynnwys hwn yn atgyfnerthu ac yn gwella'r wybodaeth y mae dysgwyr yn ei datblygu yn yr elfen ymarfer.

[3] http://qualifications.wales/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cyrff-dyfarnu/monitro-cyrff-dyfarnu/
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf

3. Rhaid mai'r canlynol yw teitl y cymhwyster ar QiW:

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

4. Rhaid i gynllun Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori sicrhau y caiff nodau ac amcanion y pwnc eu hadlewyrchu yn yr asesiadau i alluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

5. Bydd Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cwblhau 280 o oriau o brofiad yn y gweithle, naill ai drwy leoliad gwaith neu mewn swydd.

6. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ddynodi unrhyw reolau cyfuno.

7. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnwys y datganiad canlynol:

'Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae'n ofynnol i ddysgwr eu cyflawni fel rhan o'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. Argymhellir yn gryf y dylai dysgwr sy'n ymgymryd â'r cymhwyster hwn fod wedi cwblhau neu fod wrthi'n cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. Noder ei bod yn ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru i unigolyn sy'n gweithio yn y sector Gofal, Dysgu, Datblygiad a Chwarae Plant feddu ar gymwysterau

- *Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd*

a

- *Lefel 2 Gofal, Dysgu, Datblygiad a Chwarae Plant: Ymarfer a Theori*

er mwyn gweithio o fewn swyddi penodol. I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, cyfeiriwch at wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.'

Nodau ac amcanion y pwnc

8. Rhaid i Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori alluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu hymddygiad, eu sgiliau a'u hymarfer o fewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn arbennig, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

    8.1. deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, a'u rhoi ar waith;

    8.2. deall dulliau gofal, chwarae a dysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'u rhoi ar waith;

    8.3. gwneud cyfraniad cadarnhaol at y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant drwy eu hymarfer eu hunain;

    8.4. myfyrio ar ymarfer er mwyn gwella'n barhaus;

    8.5. deall rolau swyddi a swyddogaethau yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant;

    8.6. defnyddio eu gwybodaeth mewn gwahanol gyd-destunau ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant;

    8.7. defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol i'w rôl.

Cynnwys y pwnc

9. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

10. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnwys:

    - y cynnwys ymarfer a nodwyd yn Atodiad A; a
    - y cynnwys gwybodaeth gorfodol a nodwyd yn Atodiad B.

Cynllun asesu

11. Caiff Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ei hasesu'n fewnol, a chaiff 10% ei hasesu'n allanol.

12. Bydd yr asesiad mewnol:

    12.1. asesu'r cynnwys ymarfer a nodwyd yn Atodiad A;

    12.2. yn cynnwys ystod o dasgau sy'n seiliedig ar ymarfer a bennir yn allanol ac a gaiff eu marcio'n fewnol, a phortffolio o dystiolaeth;

    12.3. yr un mor heriol i bob dysgwr, beth bynnag yw'r asesiad a gymerir;

    12.4. yn nodi'r math o dystiolaeth a faint o dystiolaeth i'w chasglu at ddibenion asesu.

13. Bydd yr asesiad allanol:

    13.1. yn asesu'r cynnwys gwybodaeth gorfodol a nodwyd yn Atodiad B, gan ddefnyddio'r gofynion asesu a amlinellir isod;

    13.2. yn cynnwys arholiad.

14. Rhaid dangos tystiolaeth o bob deilliant dysgu ar gyfer y cynnwys ymarfer gorfodol a dewisol dan sylw drwy'r asesiad mewnol.

15. Rhaid ymdrin â'r holl gynnwys gwybodaeth a nodwyd yn Atodiad B yn yr asesiad allanol dros oes y fanyleb.

16. Rhaid i'r cynllun asesu sicrhau'r canlynol:

    16.1. bod y meini prawf a'r gofynion ar gyfer yr ymarfer a gynhaliwyd, a'r trefniadau ar gyfer asesu'r ymarfer hwn, wedi'u nodi'n glir;

    16.2. bod unrhyw amodau a ganiateir ar gyfer cynnal asesiadau drwy efelychu wedi'u nodi'n glir, gan gynnwys enghreifftiau o amgylchedd gwaith realistig.

17. Rhaid i'r mathau o gwestiynau, lle y bo'n briodol, roi'r cyfle i ddysgwyr gyflwyno cymysgedd o ymatebion byr ac ymatebion estynedig.

18. Rhaid i feini prawf marcio nodi sut mae pob cwestiwn neu dasg asesu yn ymwneud â'r deilliannau dysgu neu'r gofynion asesu.

19. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnwys manylion am gyfleoedd asesu, gan gynnwys ailsefyll.

Gofynion asesu

20. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y fanyleb alluogi'r dysgwyr i wneud y canlynol:

    a) Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

    b) Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

    c) Dadansoddi a myfyrio ar agweddau ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Deilliannau

21. Caiff dysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus (gan fodloni unrhyw reolau cyfuno) dystysgrif.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

22. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu'r canlynol:

    22.1. dogfen fanyleb;

    22.2. ystod gynrychioliadol o ddeunyddiau asesu enghreifftiol;

    22.3. dogfen esboniadol (dogfen resymeg) yn amlinellu'r rhesymeg dros nodweddion dylunio allweddol y cymhwyster arfaethedig a'u cydnawsedd â chanfyddiadau'r *Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*[5].

[5] http://qualificationswales.org/qualifications/vocational-qualifications/sector-reviews/health-social-care-and-childcare/?lang=cy/

Gofynion rhesymeg

23. Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r broses o adolygu a chymeradwyo cymhwyster, ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

24. Rhaid i'r ddogfen resymeg esbonio'r canlynol:

    24.1. strwythur y cymhwyster, a'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys yn y ffordd honno;

    24.2. sut y caiff tasgau eu datblygu a'u mireinio dros amser;

    24.3. y strwythur asesu, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nifer yr asesiadau, y dyraniad marciau a hyd yr asesiadau;

    24.4. sut y caiff yr amcanion asesu neu'r deilliannau dysgu eu dehongli lle y bo'n berthnasol, a sut y pennwyd gwasgariad yr amcanion asesu neu'r deilliannau dysgu ar draws yr asesiadau ac o'u mewn;

    24.5. cynllun deunyddiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys y math a'r amrywiaeth o dasgau asesu ym mhob rhan o'r cymhwyster a'u cydberthynas â'r amcanion asesu neu'r deilliannau dysgu;

    24.6. cynllun meini prawf marcio a sut y cânt eu defnyddio;

    24.7. sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

    24.8. y broses ar gyfer gosod a chynnal safonau yn y cymhwyster;

    24.9. y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg dros y ffiniau llwyddiant arfaethedig ar lefel asesiadau a'r cymhwyster.

Gofynion gweithredol

25. Rhaid i'r fanyleb a/neu'r wybodaeth ategol nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd (pwnc ac asesu/sicrhau ansawdd) ar gyfer aseswyr, sicrhawyr ansawdd mewnol a sicrhawyr ansawdd allanol.

26. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys gwybodaeth benodol am ofynion gweithredol, gan gynnwys:

    26.1. cofrestriadau;

    26.2. sicrhau ansawdd;

    26.3. prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Atodiad A – Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Rhaid i fanyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori gynnwys y cynnwys a'r deilliannau dysgu canlynol. Mae hyn yn cynrychioli 100% o gyfanswm cynnwys a deilliannau dysgu'r cymhwyster.

Grŵp A: Cynnwys ymarfer

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarfer gorfodol a dewisol cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

1. **Cefnogi ymarfer craidd ym meysydd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant**

Maes Pwnc	**Maes Is-bwnc**
1.1 Egwyddorion a gwerthoedd	- Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau - Dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau - Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant - Dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn - Caniatáu i blant gymryd risgiau - Llesiant - Cydberthnasau cadarnhaol a ffiniau proffesiynol - Cyfathrebu - Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg - Dulliau gweithredu cadarnhaol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
1.2 Iechyd, lles, dysgu a datblygu	- Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd, llesiant, chwarae, dysgu a datblygiad - Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, llesiant, dysgu, chwarae a datblygiad plant. - Lleferydd, iaith a chyfathrebu - Anghenion cymorth ychwanegol - Gofal corfforol plant - Maeth a hydradu
1.3 Ymarfer Proffesiynol ym maes	- Rolau a chyfrifoldebau'r gweithiwr blynyddoedd cynnar a gofal plant - Gweithio mewn partneriaeth

y blynyddoedd cynnar a gofal plant	- Gweithio mewn tîm - Trin gwybodaeth - Ymddygiad personol y gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant proffesiynol - Datblygiad proffesiynol parhaus
1.4 Diogelu plant	- Diogelu plant rhag niwed, camdriniaeth neu esgeulustod - Llunio cofnodion ac adroddiadau mewn perthynas â diogelu
1.5 Iechyd a Diogelwch	- Iechyd a diogelwch yn y sefydliad/lleoliad - Asesiadau risg ar gyfer iechyd a diogelwch - Diogelwch tân - Atal a rheoli heintiau - Diogelwch bwyd - Sylweddau peryglus - Diogelwch yn y sefydliad/lleoliad - Rheoli straen

2. Cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad

Deilliannau dysgu

1. Cefnogi dysgu lliniarol, twf a datblygiad
2. Rôl graidd chwarae mewn dysgu lliniarol, twf a datblygiad plant

3. Cefnogi maeth a hydradu mewn blynyddoedd cynnar

Deilliant dysgu

Cefnogi maeth a hydradu i blant

4. Ymateb i arwyddion o salwch a phlâu/heintiau posibl

Deilliant dysgu

Ymateb i arwyddion o salwch posibl ymhlith plant a'u hymatebion i imiwneiddio

5. Cefnogi gofal plant 0-2 oed

Deilliannau dysgu

1. Rôl a manteision darparu gofal plant a gwasanaethau cymorth i blant 0-2 oed
2. Cefnogi bondio ac ymlyniad ar gyfer plant 0-2 oed
3. Darparu gofal ar gyfer arferion ffisegol plant 0-2 oed

6. Cefnogi gofal plant 2-3 oed

Deilliannau dysgu

1. Rôl a manteision darparu gofal plant a gwasanaethau cymorth i blant 2-3 oed
2. Cefnogi bondio ac ymlyniad i blant 2-3 oed
3. Darparu gofal ar gyfer arferion ffisegol diogel plant 2-3 oed

7. Gweithio gyda phlant 3-7 oed

Deilliannau dysgu

1. Rôl a manteision darparu gofal plant a gwasanaethau cymorth i blant 3-7 oed
2. Cefnogi ymlyniad a gwydnwch i blant 3-7 oed
3. Darparu gofal ar gyfer arferion gofal ffisegol plant 3-7 oed
4. Cefnogi dysgu a datblygu lliniarol ym meysydd y Cwricwlwm Blynyddoedd Cynnar

8. Cefnogi'r broses o gaffael iaith newydd drwy ddull trochi

Deilliannau dysgu

1. Trochi iaith mewn lleoliadau gofal plant
2. Helpu plant i gaffael yr iaith newydd drwy ddull trochi

9. Helpu plant sy'n byw gyda diabetes mellitus

Deilliannau dysgu

1. Achosion a thriniaethau diabetes
2. Pwysigrwydd defnyddio dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth gefnogi plant sy'n byw gyda diabetes
3. Helpu plant a'u teuluoedd/gofalwyr i reoli eu diabetes
4. Pwysigrwydd maeth i blant sydd â diabetes
5. Defnyddio dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn er mwyn cefnogi plant a'r gwaith o reoli eu diabetes yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu

10. Ymateb i adweithiau anaffylacsis

Deilliant dysgu

Ymateb yn ddiogel i adwaith anaffylactig

11. Cyflwyniad i brinder anadl ac asthma mewn plant

Deilliannau dysgu

1. Achosion ac effeithiau prinder anadl
2. Achosion ac effeithiau asthma
3. Sut y gellir rheoli asthma
4. Y cymorth sydd ei angen ar blant i reoli episodau o asthma aciwt
5. Helpu plant a'u teuluoedd/gofalwyr i reoli prinder anadl ac asthma

12. Cefnogi gofal ymataliaeth plant

Deilliannau dysgu

1. Helpu plant i reoli eu hymataliaeth
2. Helpu plant i reoli ymataliaeth wrinol
3. Helpu plant ag ymataliaeth ysgarthiol

13. Helpu unigolion i symud a lleoli

Deilliant dysgu

1. Anatomi a Ffisioleg sy'n ymwneud â chodi a chario a symud a lleoli
2. Paratoi i helpu unigolion i symud a lleoli
3. Helpu unigolion i symud a lleoli

14. Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol ymhlith plant

Deilliannau dysgu

1. Ffyrdd y cytunwyd arnynt o ymgymryd â mesuriadau ffisiolegol
2. Gwneud mesuriadau ffisiolegol

15. Cynnal profion pwynt gofal

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau, y polisïau a'r protocolau sy'n gysylltiedig â phrofion pwynt gofal
2. Cynnal profion pwynt gofal

16. Ymgymryd â'r gwaith o gasglu sbesimenau

Deilliannau dysgu

1. Canllawiau, y polisïau a'r protocolau sy'n gysylltiedig â chasglu sbesimenau
2. Ymgymryd â'r gwaith o gasglu sbesimenau

17. Camau gweithredu cadarnhaol i roi cymorth ymddygiadol yn ystod y blynyddoedd cynnar

Deilliannau dysgu

1. Egwyddorion cefnogi'r gwaith o ddatblygu newid cadarnhaol mewn plant
2. Helpu i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol mewn plant sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu
3. Cydweithio ag eraill i helpu ymddygiad

18. Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi

Deilliannau dysgu

1. Epilepsi a'i effeithiau
2. Triniaethau ar gyfer epilepsi
3. Deall y gofal a ddarperir i blant sydd ag epilepsi yn unol â'r cynllun gofal y cytunwyd arno
4. Cefnogi a gofalu am blant ag epilepsi

19. Monitro glwcos gwaed capilaraidd

Deilliannau dysgu

1. Deddfwriaeth a pholisïau sy'n berthnasol i gefnogi prosesau monitro glwcos gwaed capilaraidd
2. Monitro glwcos gwaed capilaraidd

20. Helpu plant i ymgymryd â phrosesau monitro glwcos

Deilliannau dysgu

1. Deddfwriaeth a pholisïau sy'n berthnasol i gefnogi prosesau monitro glwcos
2. Hyrwyddo annibyniaeth a diogelwch wrth helpu plant i ymgymryd â phrosesau monitro glwcos
3. Helpu plant i ymgymryd â phrosesau monitro glwcos

Atodiad B: Cynnwys theori orfodol: Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys gwybodaeth gorfodol cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

Meysydd Pwnc	
DD1 Camau a phatrymau cyffredinol o ran datblygiad corfforol, iaith ddeallusol (gwybyddol), emosiynol a chymdeithasol mewn plant o adeg eu cenhedlu i 19 oed	1.1: Camau a phatrymau cyffredinol o ran twf a datblygiad corfforol 1.2: Camau a phatrymau cyffredinol o ran datblygiad deallusol (gwybyddol) 1.3: Camau a phatrymau cyffredinol o ran datblygiad iaith 1.4: Camau a phatrymau cyffredinol o ran datblygiad emosiynol 1.5: Camau a phatrymau cyffredinol o ran datblygiad cymdeithasol 1.6: Natur gyfannol datblygiad plant 0-19 oed
DD2 Sut gall amgylcheddau dysgu helpu a chefnogi iechyd, llesiant, datblygiad ac anghenion plant	2.1: Sut gall amgylcheddau ac adnoddau helpu gyda datblygiad cyfannol plant 2.2: Y ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio gweithgareddau a'r amgylchedd i blant ar gamau datblygu gwahanol, mewn lleoliadau gofal plant gwahanol 2.3: Y dylanwad posibl y gall lleoliadau addysg gofal plant eu cael ar ddatblygiad plentyn
DD3 Gwerth a dylanwad deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau a mentrau presennol y llywodraeth yng Nghymru	3.1: Gwerth a dylanwad deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau a mentrau presennol y llywodraeth yng Nghymru

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Meysydd Pwnc	
DD4 Rôl a gwerth y gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi anghenion gofal, iechyd, llesiant a datblygiad plant	4.1: Rôl a budd gwasanaethau statudol, gwirfoddol a thrydydd parti y mae plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn eu defnyddio i gefnogi iechyd a llesiant 4.2: Sut gall rhanddeiliaid allweddol gefnogi plant (a'u teuluoedd/gofalwyr) sy'n byw gydag amrywiaeth o gyflyrau ac anghenion ychwanegol